



3 Gostyngiadau TAW i gartrefi gwag

Os ydych yn bwriadu aildddefnyddio eiddo gwag nad oes unrhyw un wedi byw ynddo yn ystod y 2 flynedd cyn i'ch gwaith gychwyn, ac sy'n eiddo yr ydych yn bwriadu ei ddefnyddio at 'ddiben preswyl perthnasol' yn unig, gallwch fod yn gymwys am gyfradd TAW ostyngedig.

Pa ostyngiadau TAW y gallaf eu cael?

Hysbysiad TAW 708 (Adeiladu) (Cyllid a Thollau EM) – Gall cartrefi gwag nad oes unrhyw un wedi byw ynddynt am ddwy flynedd fod yn gymwys i gael lefel ostyngedig o TAW (5%) ar gyfer gwaith adeiladu. Gall hyn fod yn ostyngiad sylweddol yng nghostau cyffredinol y gwaith o aildddefnyddio'r eiddo.

Hysbysiad TAW 708/9 (Deunyddiau Arbed Ynni) (Cyllid a Thollau EM) – Mae cyfraddau TAW gostyngedig hefyd yn berthnasol i osod nifer o fesurau effeithlonrwydd-ynni neu arbed ynni. Gall y gostyngiadau hyn fod yn berthnasol i waith i aildddefnyddio eiddo gwag.

Sut y gall Cyngor Bro Morgannwg fod o gymorth?

Ar gais, gall y Swyddog Cartrefi Gwag a Benthyciadau ysgrifennu llythyr swyddogol at berchennog yr eiddo yn cadarnhau pa mor hir y mae'r eiddo wedi bod yn wag. Gall cwmnïau/masnachwyr ofyn am lythyr o'r fath cyn gwneud cais am y TAW gostyngedig gan y gall Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi ofyn amdano. Os ydych chi angen i'r llythyr hwn gael ei anfon atoch chi, cysylltwch â Swyddog Cartrefi Gwag a Benthyciadau gan ddefnyddio'r manylion cyswllt ar ddiwedd y llyfryn hwn.

Gyda phwy sydd angen i mi gysylltu i gael rhagor o wybodaeth?

Ffoniwch Linell Gyngor Genedlaethol Cyllid a Thollau a Chartref EM ar 0845 010 9000. Fel arall, darllenwch y wybodaeth yn www.gov.uk/government/publications/vat-notice-708-buildings-and-construction.

Ffaith:

Gall cartrefi gwag nad oes unrhyw un wedi byw ynddynt am ddwy flynedd fod yn gymwys i gael lefel ostyngedig o TAW (5%) ar gyfer gwaith adeiladu.